



Cynllunio  
Busnes

Deall Eich  
Marchnad  
-oedd

O'r  
Cynllunio  
i'r Cyflawni

Rheoli  
Cysylltiadau

Gwneud  
Synnwyr  
o'r Symiau

## Trade Development Business Programme Food and Drink Wales Commercial Skills Academy

# Y Rhaglen Sgiliau Masnachol

Mae'r Rhaglen Sgiliau Masnachol yn gyfres o weithdai a chymorth 1:1 sydd wedi'u hanelu at fusnesau bwyd a diod Cymru. Mae'r rhaglen yn darparu cyngor a chymorth ymarferol i fusnesau er mwyn iddynt ddatblygu eu gallu i gyflawni cynlluniau masnachol ar draws holl swyddogaethau busnes.

Wrth gofrestru ar gyfer y rhaglen, byddwn yn trafod eich anghenion a'ch busnes â chi. Ar ôl pob gweithdy byddwch yn cael sesiwn ddilynol 1:1 i'ch helpu i gael y budd ymarferol gorau o'r diwrnod.

Ar ddiwedd y rhaglen, byddwn yn eich helpu i baratoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod y buddion yn treiddio drwy'r busnes i gyd.

### Sut gallwch chi elwa

Rhaid i fusnesau sy'n tyfu'n gyflym wneud penderfyniadau masnachol hollbwysig bob dydd. Mae hyn yn berthnasol i arweinyddion busnes a rheolwyr ym mhob swyddogaeth. Yn yr amgylchedd cystadleuol sydd ohoni, mae'n bwysig i bawb feddwl y tu hwnt i'w arbenigedd ei hun a sicrhau bod ei ymdrechion yn cefnogi ymdrechion y busnes yn ei gyfanrwydd. Mae'r Rhaglen Sgiliau Masnachol yn gyfle i weithwyr proffesiynol o bob swyddogaeth yn eich busnes feddu ar y sgiliau hollbwysig hynny.

### Y Rhaglen

Cyfres o bump gweithdy undydd, a phob un yn cael ei gynnal yn y gogledd a'r de. Gall pobl gofrestru ar gyfer pob un o'r gweithdai, neu ddewis pa raglenni sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

- Cynllunio Busnes
- Deall eich Marchnadoedd
- O'r Cynllunio i'r Cyflawni (Gweithrediadau a'r cynllun masnachol)
- Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid
- Gwneud Synnwyr o'r Symiau (Cyllid i reolwyr nad ydynt yn arbenigwyr cyllid)

### Pwy Ddylai Ddilyn y Rhaglen?

Bwriedir y rhaglen hon ar gyfer pob rheolwr a swyddog gweithredol sy'n awyddus i roi min ar ei sgiliau masnachol hanfodol. Mae'n addas iawn i swyddogion sy'n gweithio y tu allan i'r maes masnachol traddodiadol sy'n dymuno deall yn well sut mae busnesau'n gweithio.

- Perchnogion busnes
- Swyddogion/rheolwyr Gwerthu a Marchnata
- Rheolwyr Gweithrediadau
- Rheolwyr y Gadwyn Gyflenwi
- Rheolwyr Technegol
- Rheolwyr Cyllid
- Rheolwyr Datblygu Cynnyrch Newydd



Os hoffech ddysgu mwy am y rhaglen hon, cliciwch ar [www.levercliff.co.uk/commercial-skills-programme/](http://www.levercliff.co.uk/commercial-skills-programme/) neu cysylltwch â Helen Houlbrook [bwyd-food@levercliff.co.uk](mailto:bwyd-food@levercliff.co.uk) rhif ffôn: 01691 770055 i gael rhagor o wybodaeth